***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2492 (Cy. 159 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *12 Medi 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *13 Medi 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 173(1), (2) a (4) a 175(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 13 Medi 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygiadau

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) 1991(**3**) yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn Rheoliad 17, ym mharagraff (2), yn lle "£29.48" rhowch "£30.39".

(3) Yn Rheoliad 18,

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£29.48" rhowch "£30.39";

(b) ym mharagraff (2),

(i) yn is-baragraff (a) yn lle "£26.24" rhowch "£27.65"; a

(ii) yn is-baragraffau (b) ac (c), yn lle "£52.49" rhowch "£55.31.".

(**1**) 1972 p. 70. Diwygiwyd adran 173 gan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65), adran 24(1) a chan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), Atodlen 11, paragraff 26. Mewnosodwyd adran 175(1A) gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Atodlen 11, paragraff 27. I gael y diffiniad o "prescribed" gweler adran 270 o Ddeddf 1972.

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1991/351; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1999/1086 ac O.S. 1999/1087.

**Diddymu**

**3.** Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) 1999(**4**) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Rhif 2) 1999(**5**) wedi'u diddymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

12 Medi 2000

(**4**) O.S. 1999/1086.
(**5**) O.S. 1999/1087.
(**6**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwneud darpariaeth i aelod o gyngor plwyf yn Lloegr neu o gyngor cymuned yng Nghymru sy'n gynghorydd gael taliad yn lwfans presenoldeb nad yw'n fwy na'r swm a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau ac i aelod o gyngor o'r fath nad oes ganddo hawl i gael taliad o'r fath gael taliad yn lwfans colled ariannol nad yw'n fwy na'r swm a ragnodir drwy gyfrwng rheoliadau.

Mae adran 175 o Ddeddf 1972 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu i aelod o awdurdod lleol neu o unrhyw gorff arall y mae'r adran honno'n gymwys iddo lwfans am fynd i gynhadledd neu gyfarfod nad yw'n fwy nag unrhyw swm a bennir mewn rheoliadau neu y penderfynir arnynt o danynt.

Mae Rheoliad 17 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) 1991 yn pennu swm at ddibenion adran 175 o Ddeddf 1972 ac mae Rheoliad 18 o'r Rheoliadau hynny'n pennu symiau at ddibenion adran 173 o'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 17 a 18 o Reoliadau 1991 drwy gynyddu'r symiau perthnasol, ac yn diddymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) 1999 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Rhif 2) 1999 mewn perthynas â Chymru.